Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

GWASANAETHAU PRESWYLFEYDD - Sesiwn 2023/2024

GWYBODAETH AR GYFER CYRRAEDD – Neuadd y Brifysgol

Pob myfyriwr:

O ble dylwn i gasglu fy allwedd?

Derbynfa Neuadd y Brifysgol; gweler y map ar y dudalen nesaf neu defnyddiwch CF23 5YB yn eich teclyn llywio lloeren.

Pryd dylwn i gasglu fy allwedd?
10am hyd 4pm ar ddiwrnod cyntaf Cyfnod eich Contract (fel y nodir yn y ddogfen Derbyn y Contract ar-lein – Materion Allweddol)

Os na fyddwch yn casglu eich allwedd erbyn 4pm, efallai bydd eich llety neilltuedig yn cael ei dynnu'n ôl ac yn cael ei gynnig i fyfyriwr arall.

Ebostiwch:residences@caerdydd.ac.uk os oes gennych ymholiadau am statws eich cais.

Cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus:

Os byddwch yn cyrraedd gorsaf fysiau neu orsaf reilffordd Caerdydd Canolog:

Tacsi - Gallwch gael gafael ar dacsi yn rhwydd o'r safle tacsis y tu allan i orsaf reilffordd Caerdydd Canolog a gorsaf fysiau Caerdydd Canolog. Bydd y rhain yn costio oddeutu £15, gan ddibynnu ar y pellter a faint o fagiau sydd gennych.

Bws - Mae nifer o lwybrau bysiau yn rhedeg o orsaf fysiau Caerdydd Canolog, sy'n aros gerllaw neuaddau preswyl. I gael rhagor o wybodaeth ac amserlenni, ewch i'r dudalen we ganlynol: https://www.cardiffbus.com/

A oes maes parcio ar gael?

- Mae cyfleusterau parcio dros dro ar y safle ar gyfer dadlwytho, mae hyn wedi'i gyfyngu i un car i bob myfyriwr
- Yn anffodus, gallwn ganiatáu 45 munud yn unig i ddadlwytho eich cerbyd oherwydd cyfyngiadau parcio a faint o bobl sy'n cyrraedd
- Ar ôl dadlwytho, mae mannau parcio ar y stryd ar gael yn yr ardal breswyl leol

Campus Services

Gwasanaethau'r Campws

Neuadd y Brifysgol - Cyfeirnod map 2

Ar yr M4 o'r Dwvrain

Neuadd y

Ar yr M4 o'r Gorllewin



Campus Services

Gwasanaethau'r Campws

MAP O'R SAFLE